

ADRODDIAD I'R CABINET

16 Medi 2014

Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Dyfed Edwards

Pwnc: Perfformiad Cyngor Gwynedd 2013/14

Swyddog cyswllt: Hawis Jones, Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd

Y penderfyniad a geisir

Argymhell i'r Cyngor Llawn eu bod yn mabwysiadu adroddiad perfformiad Cyngor Gwynedd 2013/14.

Barn yr aelod lleol

Nid yw'n fater lleol.

Cyflwyniad

Yn unol â fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir adroddiad perfformiad 2013/14 i'r Cabinet am gymeradwyaeth.

Rhesymau dros argymhell y penderfyniad

Mae angen i'r Cabinet gymeradwyo'r adroddiad cyn iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2014. Cyflwynwyd yr adroddiad hefyd i sylw'r Fforwm Craffu er mwyn craffu cydbwysedd yr adroddiad.

Ystyriaethau perthnasol

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar adroddiadau chwarterol ar berfformiad a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn ac yn rhoi sylw i gyrhaeddiad yn erbyn canlyniadau Cynllun Strategol y Cyngor 2013/14.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried yr adroddiad hwn wrth baratoi ei asesiad ar berfformiad y Cyngor. Yn ôl yr arfer, byddant yn chwilio am

adroddiad cytbwys, sydd yn rhoi sylw i'r agweddau na lwyddwyd i'w cyflawni, yn ogystal ag i'r agweddau llwyddiant.

Trefnir hysbysu'r cyhoedd o'r adroddiad drwy gyfryngau arferol y Cyngor, yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol.

Bydd fersiwn 'gryno' ar gael a fydd yn rhoi sylw i'r prif faterion, ac wedi ei llunio er mwyn cael ei darllen yn rhwydd gan drigolion Gwynedd.

Camau nesaf ac amserlen

Ystyrir yr adroddiad ymhellach gan:

Y Cyngor – 9 Hydref 2014, i'w gymeradwyo'n derfynol.

Barn y swyddogion statudol

Y Prif Weithredwr:

Mae cyhoeddi'r adroddiad hwn yn cyfarfod a gofyn statudol, ond hefyd yn gyfle i'r Cyngor gyfeirio at ein perfformiad yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf gan roi darlun teg a chytbwys o'r perfformiad hynny. Mae llawer gennym i ymfalchïo ynddo, ond yn amlwg mae meysydd lle nad ydym wedi llwyddo i gyflawni'r hyn yr oeddem wedi ei fwriadu. Fel Cyngor rydym bob amser yn ceisio'r gorau i bobl y sir ac mae'r adroddiad hwn yn cynnig cyfle i bobl Gwynedd ac eraill ddod i gasgliad i ba raddau y buom yn llwyddiannus wrth wneud hynny.

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Mae adroddiad perfformiad 2013/14 yn nodi llwyddiant prosiectau a gwasanaethau'r Cyngor ar draws sawl maes. Mae hynny yn cynnwys, ar dudalen 59 o'r adroddiad, cadw o fewn y gyllideb, talu anfonebau yn brydlon, a chasglu treth yn effeithiol. Mae'n galonogol hefyd, ar dudalen 57 o'r adroddiad, i weld fod cynnydd yn y ganran o drigolion Gwynedd sydd yn credu bod y Cyngor yn cynnig gwerth am arian. Nodaf hefyd farn Swyddfa Archwilio Cymru, ar dudalen 62 o'r adroddiad, bod y Cyngor "wedi elwa o arweinyddiaeth gadarn o safbwynt cynllunio ariannol yn 2013/14". Ar yr un tudalen, mae'r adroddiad yn nodi llwyddiant i wireddu arbedion a datblygu cynlluniau effeithlonrwydd yn 2013/14. Bydd angen i'r Cyngor barhau i roi blaenoriaeth i hyn eleni ac mewn blynyddoedd dilynol, gan fod llywodraeth leol fel sector eisoes yn wynebu targedau arbedion hynod o heriol.

Atodiadau

Atodiad – Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2013/14